

DYFODOL

dyfodol yr iaith

DIGWYDDODD TROBWyNT yn hanes Cymru pan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol yn 1999. Dyna oedd dechrau'r broses ddatganoli. Byth oddi ar hynny, gwnaed mwy a mwy o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar ddyfodol yr iaith Gymraeg nid yn Llundain ond yng Nghaerdydd.

Mae'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â holl feysydd deddfu'r Cynulliad, sy'n cynnwys y system addysg, cynllunio, tai, datblygu economaidd, byd ieuchyd a gofal, a'r cyfryngau.

Sefydlwyd **Dyfodol i'r iaith** i ddylanwadu ar y gwleidyddion a'r gweision sifil sy'n llunio deddfwriaeth a pholisïau yn y meysydd yma. Grŵp pwysu annibynnol ac amhleidiol yw **Dyfodol i'r iaith** sy'n croesawu aelodau o bob plaid a chred sydd am weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu ym mywyd Cymru.

Daeth ffurfio grŵp o'r fath yn arbennig o bwysig yn sgil diflaniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bellach does yna ddim un corff statudol sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn gyffredinol.

Ein bwriad yw sefydlu swyddfa gyda staff amser llawn ym Mae Caerdydd a fydd yn gallu ymateb yn syth i ddatblygiadau'r dydd ond a fydd hefyd yn rhagweithiol. Nod **Dyfodol i'r iaith** yw perswadio'r pleidiau i osod yr iaith ar ganol eu hagenda, a chyfrannu hefyd at gynllunio ieithyddol tymor hir a'r gwaith meddwl sydd ynghlwm wrth hynny.

dyfodol eich cwmni

YN AMLWG, bydd creu hinsawdd ffafriol i'r iaith yn cyfrannu at ffyniant tymor hir y cwmnïau a'r mudiadau hynny sy'n gweithredu yn y maes diwylliannol, e.e. twristiaeth, cyfieithu, theatr, y cyfryngau, gwaith ieuenctid. Ond bydd gwaith **Dyfodol i'r iaith** hefyd o fudd i gwmnïau sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau cyffredinol, ac sy'n dymuno gweithredu trwy'r Gymraeg ac mewn awyrgylch Cymreig.

Un o amcanion pwysicaf y mudiad yw rhwystro'r all-lifiad talent o Gymru trwy greu ardaloedd twf Cymreig a fydd yn ganolfannau bywiog yn economaidd a diwylliannol.

Tra bod pob cwmni gwerth ei halen am sicrhau elw iachus iddo'i hun, dylai hefyd, wrth edrych tua'r dyfodol, ystyried yr amgylchedd ehangach y mae'n gweithredu ynddo. Gwahoddwn chi i helpu **Dyfodol i'r iaith** i'ch helpu chi trwy ymlaedi fel Aelod Corfforaethol (£250 y flwyddyn) neu fel Noddwr. Caiff eich cwmni fanteision trwy gyfrwng sylw ar y wefan a thrwy wahoddiad i gyfarfodydd arbennig, gan gynnwys rhai'n ymdrin â chreu polisi yn eich maes arbennig chi.



Aelod Corfforaethol /Noddwr

Rwy'n amgáu sic am

/ Rwy'n trefnu archeb banc am:

£250 (Aelod Corfforaethol), neu

£500 (Noddwr)

i "Dyfodol i'r Iaith Cyf."

Enw _____

Cwmni _____

Cyfeiriad _____

Côd Post _____

E-bost _____

Ffôn symudol _____

Ffôn cartref _____

Galwedigaeth _____

Anfonwch at: Dyfodol i'r Iaith Cyf.,
Penllyn, 25 Ael y Bryn, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 2HB
neu hysbysu post@dyfodol.net;
gallwch drefnu archeb banc misol neu flynyddol NEU
dalun un taliad yn uniongyrchol i gyfri banc
Dyfodol i'r Iaith:
Banc Lloyds TSB, 2 Heol Glanmôr, Uplands, Abertawe
SA2 0PU; côd dosbarthu 30-98-85;
rhif cyfrif 26699860
– gan ein hysbysu trwy e-bost neu lythyr.

Dyfodol i'r Iaith

Bwrdd

Emyr Lewis
Richard Wyn Jones
Cynog Dafis
Eifion Lloyd Jones
Wyn Thomas
Huw Edwards
Meirion Llewelyn
Heini Gruffudd
Simon Brooks
Judith Humphreys
Catrin Alun
Robat Gruffudd

Swyddogion

Llywydd Elinor Jones
Cadeirydd Heini Gruffudd
Ysgrifennydd Simon Brooks
Trysorydd Huw Edwards

Swyddogion Cyflogedig

Prif Weithredwr Ruth Richards
ruth@dyfodol.net
Gweinyddwraig Meinir James
meinir@dyfodol.net

Cyfeiriad cyswllt

Dyfodol i'r Iaith Cyf., 3 Teras
Victoria, Biwmares, Sir Fôn
LL58 8BU
E-bost: post@dyfodol.net
Gwefan: www.dyfodol.net

eich dyfodol chi

PRIN BOD DIM sy'n fwy creiddiol i ansawdd bywyd na'r iaith a siaradwn gyda'n gilydd, a phrin bod yna waith pwysicach na sicrhau dyfodol cadarn i'r iaith honno yn ein cartrefi ac yn ein cymunedau.

Dyna'n union yw swyddogaeth **Dyfodol i'r Iaith** ac rydym yn eich gwahodd i gyfrannu'n ymarferol at y gwaith trwy ddod yn Noddwr i'r mudiad. Bydd hynny'n costio deupunt yr wythnos i chi, sef £500 y flwyddyn – ond bydd o werth amhrisiadwy i ni, ac yn ein galluogi i symud ymlaen i agor swyddfa ym Mae Caerdydd yn cyflogi dau swyddog amser llawn. Ein nod yw o leiaf dreblu ein trosiant presennol o £30,000.

Mae **Dyfodol i'r Iaith** yn gwmni cyfyngedig trwy warant a chaiff pob gwariant ei oruchwyllo gan swyddogion â chymwysterau proffesiynol. Gallwch fod yn dawel eich meddwl felly y caiff eich cyfraniad ei ddefnyddio yn y modd mwyaf cyfrifol posibl. Mae yna ffyrdd cyhoeddus iawn o gefnogi'r iaith. Mae hon yn ffordd wahanol – yn canolbwyntio ar greu'r amodau ar gyfer ffyniant yr iaith Gymraeg yn y tymor hir.

Mae Dyfodol eisoes wedi...

- ▶ Ymateb i ddegau o ymgynghoriadau gan gynnwys rhai ar iechyd, pobl hŷn, yr economi a'r Gymraeg, cynllunio, addysg, y Gymraeg fel ail iaith, darlledu, gwasanaethau cyhoeddus, Chymraeg i oedolion, a'r gwasanaeth iechyd.
- ▶ Cynnal sawl cyfarfod gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, gyda gwleidyddion eraill a gweision sifil sawl adran
- ▶ Cael sawl llwyddiant yn barod gan gynnwys
 - **Cynllunio: llwyddiant i gael y Gymraeg yn rhan o'r Mesur Cynllunio newydd. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol ystyried effaith ieithyddol datblygiadau tai newydd**
 - Canolfannau Cymraeg: argymhellodd Dyfodol i'r iaith eu sefydlu fel ffordd o adfywio'r Gymraeg. Mae'r Llywodraeth wedi ariannu'r rhain ym Mhontardawe, Aberteifi, Bangor, Caerdydd, Caerfyrddin a mannau eraill.
 - Cymraeg i Oedolion: gofynnodd Dyfodol i'r iaith am greu uned genedlaethol i arwain y maes. Mae'r uned yn cael ei sefydlu yng Nghaerfyrddin.
 - Sir Gâr: Cynigiodd Dyfodol i'r iaith lu o awgrymiadau i'r Cyngor. Derbyniwyd nhw i gyd.
 - Mentrau Iaith: Trefnodd Dyfodol i'r iaith ddeiseb i gefnogi'r Mentrau Iaith. Derbyniodd y Mentrau £700,000 yn ychwanegol.
- ▶ Cael cyfarfodydd gyda chynghorwyr ar draws Cymru i drafod sut i gryfhau'r Gymraeg yn eu hardaloedd, gan gynnwys Gwynedd a Môn.
- ▶ Trefnu cynadleddau a chyfarfodydd ar y Gymraeg a chynaliadwyedd a chynllunio iaith.
- ▶ Cefnogi sawl achos, e.e. cefnogi cerddorion Cymraeg; cefnogi ymgyrch Saith Seren, Wrecsam; cefnogi canolfannau dysgu.
- ▶ Trafod gyda Leighton Andrews yr angen i ddefnyddio ad-drefnu llywodraeth leol yn gyfle i ehangu'r Gymraeg yn iaith gwaith
- ▶ Cyhoeddi rhaglen weithredu ar egwyddorion cynllunio iaith, gyda'r flaenoriaeth i'r cartref a'r gymuned

Llais i'r Iaith
www.dyfodol.net

